# Gweithdy Rhithiol: Archwilio Celf



Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'n Gweithdy Archwilio Celf yn fuan. Dyma rai syniadau a gweithgareddau i'w gwneud ymlaen llaw, i helpu'r disgyblion wneud y gorau o'r gweithdai.

## Gwyliwch ein fideo cyflwyno Oriel Gelf

https://youtu.be/yzeyfS1IG7c

Dewch i gyfarfod Siân yn yr orielau celf a dysgu mwy am gasgliadau celf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Fersiwn BSL: https://youtu.be/SbyNzZNhbhI

## Ewch ar daith rithwir drwy'r Orielau Celf

https://my.matterport.com/show/?m=VLWSNX62ax8

Crwydrwch yr orielau a mwynhau'r wledd o gelf yma yng Nghymru!

## Trafodaeth Dosbarth/Grŵp

Ar ôl gwylio'r fideo a mynd ar ymweliad rhithwir trafodwch gyda'r dosbarth – **Beth arall ydych chi am ei ddysgu am Orielau Celf?** Meddyliwch am gwestiynau i'w holi i'r hwylusydd yn y gweithdy.

## Beth i’w ddisgwyl:

Bydd un o’n hwyluswyr yn cyflwyno’r disgyblion i’r orielau celf gan ganolbwyntio ar artistiaid a thirluniau o Gymru. Bydd y disgyblion yn ystyried sut mae tirlun Cymru wedi ysbrydoli artistiaid. Byddan nhw'n dadansoddi tirluniau Cymreig allweddol, yn cwestiynu’r dystiolaeth, ac yn datblygu geirfa i ddisgrifio ac ymateb i’r gwaith.
Bydd cyfle hefyd i’r disgyblion feddwl am dechneg, arddull, cyfansoddiad a’r defnydd o liw a golau.

**Bydd y gweithdy rhwng 45 munud ac awr o hyd.**


Gweithdy rhyngweithiol yw hwn, a bydd yr hwylusydd yn holi ac ateb cwestiynau. Er mwyn i’r dosbarth gael y gorau o’r sesiwn, cofiwch:

- Gosodwch y camera fel ein bod ni’n gallu gweld y dosbarth cyfan
- Gwnewch yn siŵr bod y dosbarth cyfan yn gallu gweld a chlywed
- Meddyliwch am y ffordd orau i’r dosbarth holi ac ateb cwestiynau. Gallwch chi wneud hyn drwy’r athro, neu greu ‘man siarad’ lle gall y plant sefyll yn eu tro
- Byddwch yn bresennol a chyfrifol am y disgyblion trwy gydol y sesiwn a rheoli’r dosbarth
- Sicrhewch fod eich cyfrifiadur ymlaen a bod y cysylltiadau yn gweithio 15 munud cyn y gweithdy. Bydd yr hwylusydd ar gael am 5/10 munud cyn y gweithdy i ateb cwestiynau’r athro.

**Bydd y ddolen Teams i ymuno â’r gweithdy yn yr e-bost cadarnhau.**

# Ar ôl y Gweithdy Archwilio Celf:

## E-lyfr Argraffiadydd yng Nghymru




Dysgu am grŵp enwog o artistiaid – yr Argraffiadwyr. Darganfod gwyddor lliw a golau a pha fath o le oedd Caerdydd a de Cymru ar ddiwedd Oes Fictoria.


https://amgueddfa.cymru/addysg/gweithgaredd/465/Argraffiadydd-yng-Nghymru-/

## Creu celf eich hun




Edrychwch drwy ffenest y dosbarth neu eich cartref ac fe welwch chi dirlun Cymreig! Mae ganddo'i ffrâm (ffenest) ei hun hefyd! Defnyddiwch bensel i greu braslun o'r olygfa. Yna defnyddiwch wahanol ddeunyddiau a thechnegau i greu Tirlun Cymreig eich hun.

## Ysgrifennwch labeli oriel




Trafodwch y math o wybodaeth sydd ar label fel arfer e.e. pwy wnaeth y gwaith, sut y cafodd ei wneud, pryd gafodd ei wneud, pam gafodd ei wneud, ble y cafodd yr artist ei syniadau ac ati. Defnyddiwch Casgliadau Ar-lein i ddewis gweithiau celf ac ysgrifennu labeli ar eu cyfer.
https://www.casgliadywerin.cymru/

## Beth am fod yn guradur?




Mae curadur yn gofalu am y casgliadau ac yn penderfynu pa weithiau celf sy'n cael eu harddangos. Allwch chi guradu arddangosfa? Gweithiwch yn unigol, mewn grwpiau neu fel dosbarth i ddewis thema a churadu arddangosfa neu gasgliad dychmygol.

Beth am gadw eich arddangosfa a'i rhannu gydag eraill ar Casgliad y Werin Cymru. Gallwch chi hyd yn oed gynnwys gweithiau celf gan y dosbarth!

https://www.casgliadywerin.cymru/